| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD** | **1 RHAGFYR, 2015** |
| **PWNC** | **EFFEITHLONRWYDD TREFNIADAU CRAFFU'R CYNGOR** |
| **AWDUR (ON)** | **Arwel E Jones, Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Sefydlu is-grwp i lunio Cynllun Gweithredu** |

1. Yn ddiweddar, bu Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn cwblhau adolygiad o effeithlonrwydd craffu yng Ngwynedd. Fel rhan o'r gwaith hynny, maent wedi awgrymu tri prif faes y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn gwella craffu yng Ngwynedd, sef:-

    - Delio â'r diffyg cyswllt sydd yn ymddangos rhwng gwaith y Cabinet a'r pwyllgorau craffu trwy edrych, ymysg pethau eraill, ar fwy o graffu cyn penderfyniad ar waith y Cabinet
    - Gwella ar eglurder argymhellion craffu fel bod modd adnabod yr hyn sy'n digwydd o ganlyniad i graffu yn haws
    - Gwella ansawdd cwestiynu mewn pwyllgorau craffu er mwyn cynnig mwy o ffocws ac ansawdd i'r craffu

    (Er na dderbyniwyd y fersiwn derfynol o'r adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru eto, mae'r argymhellion tebygol wedi eu nodi yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn)

2. Ar yr un adeg, cynhaliwyd Arolwg 360 gradd o farn aelodau ac uwch swyddogion y Cyngor o effeithlonrwydd y trefniadau craffu o fewn y Cyngor. Daeth rhai negeseuon tebyg allan o'r arolwg hynny, yn cynnwys yr angen i edrych ar feithrin a datblygu sgiliau ond hefyd i edrych ar y model craffu i weld a oes angen ei addasu er mwyn cyfarch rhai o'r materion a godwyd yn adroddiad SAC a'r Arolwg 360 gradd.

3. Gan mai'r Pwyllgor Archwilio sydd â chyfrifoldeb i edrych ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac, yn benodol, ar Gyfansoddiad y Cyngor, daethpwyd i'r casgliad y byddai'n briodol i'r Pwyllgor hwn drafod y mater.

4. Awgrymir, os yw'r aelodau yn gytun, y dylid sefydlu is-grwp o'r Pwyllgor i edrych ar fyrder ar y mater, gwahodd tystion, do di gasgliadau ar y ffordd ymlaen ac, yn benodol, i sicrhau bod Cynllun Gweithredu cadarn yn ei le i gyfarch argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru.